**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – Adroddiad dilynol

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru – Adroddiad dilynol

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Llyr Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**William Powell**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Antoinette Sandbach**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad .... 5

1. Arweiniad .... 6
2. Diwygio'r Farchnad Ynni .... 7
3. Datganoli .... 8
4. Y galw am ynni .... 9
5. Materion cynllunio .... 10
6. Ymgysylltu â'r cyhoedd, a budd hynny .... 12
7. Targedau ynni adnewyddadwy .... 14
8. Cyfoeth Naturiol Cymru .... 15
9. Nwy Anghonfensiynol .... 16
10. Cynlluniau ynni dŵr .... 18
11. Treulio Anaerobig .... 19

Atodiad - Tystion .... 20

# Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad manwl ar Bolisi Ynni a Chynllunio, ac ym mis Medi 2012 cawsom ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion.  Yr oeddem yn falch fod y rhan fwyaf o'r 77 argymhelliad a wnaed gennym wedi'u derbyn, mewn egwyddor o leiaf.  Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro'r sefyllfa gan fod yr agenda ynni mor bwysig i Gymru.  Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru am yr wybodaeth ddiweddaraf am ein hargymhellion a chawsom yr wybodaeth honno ym mis Mawrth 2013. Penderfynodd y Pwyllgor gael rhagor o dystiolaeth am sawl mater gan gynnwys nwy anghonfensiynol, cynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach ac ynni cymunedol.  Yr oedd hefyd yn awyddus i glywed eto gan ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru.

Yn yr adroddiad newydd hwn mae crynodeb o'n casgliadau am y cynnydd sydd wedi'i wneud, a thynnir sylw at feysydd lle barnwn fod angen mwy o weithredu.

# 1. Arweiniad

1. Mae'r Pwyllgor o'r farn fod **rhywfaint o gynnydd** wedi'i wneud ers inni gyhoeddi ein hadroddiad ym mis Mehefin 2012. Nododd rhai o'n tystion fod ambell 'egin gwyrdd' i'w weld, ond mae angen cynnal y momentwm.

*Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru ddangos* ***arweiniad cryf*** *o ran hybu datblygiad llawer math gwahanol o ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Mae llawer eto i'w wneud i gyflawni hyn. Yn ddiweddar, bu newid ym mhortffolios y Gweinidogion ac erbyn hyn mae'r cyfrifoldeb am ynni a materion cynllunio wedi'i rannu rhwng sawl portffolio. Byddwn yn cadw llygad ar y sefyllfa i sicrhau na fydd hyn yn arwain at lai o ffocws ar yr agenda hanfodol hon.*

2. Ym mis Mai eleni, hysbyswyd y Pwyllgor gan Gyfoeth Naturiol Cymru fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar **gynlluniau gweithredu ar gyfer y blaenoriaethau** ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy ac y byddai'r rheini'n cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

*Credwn ei bod yn rhesymol disgwyl i Lywodraeth Cymru lunio'r Cynlluniau Gweithredu hyn erbyn diwedd 2013 fan hwyraf.*

3. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld y **Papur Gwyn ar Gynllunio a'r Bil Cynllunio drafft** yn cael eu cyhoeddi ddiwedd 2013. Gobeithio y bydd hynny'n dechrau mynd i'r afael â llawer o'r materion cynllunio a chaniatáu a godwyd yn yr adroddiad gwreiddiol ac a ategwyd yn ein sesiynau tystiolaeth dilynol.

4. Rydym yn croesawu'r ffaith fod **Grŵp Cyflawni Strategol Ynni Cymru** wedi cael ei sefydlu, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ganddo ym mis Mehefin 2012. Cawsom ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru y byddai cofnodion y Grŵp ar gael i'r cyhoedd. Deallwn fod y Grŵp wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar 10 Mehefin, ond nid yw cofnodion y cyfarfod hwnnw wedi'u cyhoeddi hyd yma.

*Gofynnwn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth am waith pwysig Grŵp Cyflawni Strategol Ynni Cymru ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys cofnodion ei gyfarfodydd.*

## 2. Diwygio'r Farchnad Ynni

5. Mae canlyniad terfynol y cynllun i **Ddiwygio'r Farchnad Ynni**, sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU, yn parhau i fod o'r pwys mwyaf.

*Anogwn Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'i rôl ymgynghori ffurfiol yn y broses o ddatblygu a dylunio'r cynllun i Ddiwygio'r Farchnad Ynni er mwyn dadlau o blaid cael y fargen orau bosibl i Gymru, ac yn enwedig y pwysigrwydd o sicrhau cydraddoldeb yn y gyfundrefn Tystysgrif Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy ledled y DU.*

## 3. Datganoli

6. Roedd mwyafrif aelodau'r Pwyllgor o blaid cefnogi galwadau cyson Llywodraeth Cymru am **ddatganoli'r pwerau cydsynio** ar gyfer prosiectau ynni ar raddfa fawr ar dir ac ar fôr. Yr oeddynt hefyd o blaid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am **Dystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy a'r Tariffau Cyflenwi Trydan** er mwyn sicrhau "cae chwarae gwastad" gyda rhannau eraill y DU. Argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hachos o blaid rhagor o ddatganoli, ac mae hynny bellach wedi'i wneud.

*Rydym yn rhannu pryder Llywodraeth Cymru fod Llywodraeth y DU, yn ei hymateb i Ran 2 Comisiwn Silk, wedi gwrthod y galwadau hyn unwaith eto. Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr fod Llywodraeth y DU wedi mynd gam ymhellach drwy awgrymu y dylai'r cyfrifoldeb dros ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiectau Seilwaith Strategol Cenedlaethol gael ei gymryd oddi ar awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a'i roi i'r Arolygiaeth Gynllunio. Ond yn nwylo Ysgrifennydd Gwladol y DU y byddai'r cyfrifoldeb yn y pen draw.*

7. Dywedodd Prif Weinidog Cymru wrth y Pwyllgor bod datganoli'r cyfrifoldeb am yr **Ardoll Seilwaith Cymunedol** hefyd yn ddymunol gan fod iddo gysylltiad agos â'r system gynllunio yng Nghymru. Oni chaiff y cyfrifoldeb hwnnw ei drosglwyddo, bydd yn fwy anodd sicrhau buddion economaidd a chymunedol ehangach o brosiectau ynni.

*Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru am ddatganoli'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.*

## 4. Y galw am ynni

8. Un o'r negeseuon pwysig a gafwyd yn ein sesiynau tystiolaeth oedd bod **lleihau'r galw am ynni** yr un mor bwysig â chwilio am fathau newydd o ynni yn lle'r cyflenwadau o danwydd ffosil. Nid yw llawer o'r ysgogiadau sydd ar gael i'r Llywodraeth i leihau'r galw am ynni ac i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon wedi'u datganoli. Felly, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r ysgogiadau hynny sydd wedi eu datganoli.

*Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i hybu polisïau a rhaglenni sy'n lleihau'r galw am ynni, law yn llaw â'r rhai sy'n hybu ynni adnewyddadwy. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Rheoliadau Adeiladu y byddai'r safonau allyriadau ar gyfer tai newydd yn gostwng 8% o'r hyn ydoedd yn 2010, yn hytrach na'r 40% yr ymgynghorwyd arno'n wreiddiol. Rydym yn pryderu fod hyn yn gam i'r cyfeiriad anghywir.*

## 5. Materion cynllunio

9. Ychydig iawn o gynnydd a wnaed ar un o argymhellion allweddol y Pwyllgor, sef **rhyddhau'r ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir**.

10. Mae ychydig mwy o geisiadau wedi'u penderfynu ers i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi ond mae llawer, yn enwedig ym Mhowys, yn dal heb eu penderfynu. Bydd canlyniad yr **ymchwiliad cyhoeddus cyfunol ar ffermydd gwynt yng Nghanolbarth Cymru** yn drobwynt, ond mae'n bur annhebyg y bydd yn hysbys am o leiaf 12 mis arall. Y ffactor allweddol fydd faint o bwys y bydd Arolygydd yr ymchwiliad yn ei roi ar Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8) o gymharu â Datganiadau Polisi Cenedlaethol Llywodraeth y DU ar Ynni.

*Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda rhanddeiliaid eraill, er mwyn dod i benderfyniad cyn gynted ag y bo modd ynghylch ceisiadau ynni adnewyddadwy sydd ar y gweill ers tro.*

11. Ddechrau 2013, cyhoeddwyd **adroddiad Hyder** a oedd yn trafod achosion yr oedi, ond rydym yn dal heb gael ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion. Daw hyn yn fwy clir, gobeithio, pan gaiff y Papur Gwyn a'r Bil Cynllunio Drafft eu cyhoeddi.

*Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2013, awgrymwyd wrthym gan y Prif Weinidog a'i Brif Swyddog Cynllunio fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofyniad statudol i gwmnïau ymgynghori â chymunedau cyn gwneud ceisiadau cynllunio am safleoedd ynni adnewyddadwy mawr. Rydym yn croesawu hyn.*

12. Un o'r argymhellion pwysig yn adroddiad Hyder ac yn adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol yw y dylai **Llywodraeth Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb am geisiadau ynni adnewyddadwy 'strategol'** (naill ai rhwng 5 a 50 megawat neu rhwng 25 a 50 megawat). Gwrandawodd y Pwyllgor ar ddadleuon o blaid ac yn erbyn y syniad hwn.

*Arhoswn yn eiddgar i weld beth a gaiff ei gynnwys yn y Bil Cynllunio Drafft ar y mater hwn. Fodd bynnag, nid ydym o blaid uned cwbl annibynnol tebyg i 'Gomisiwn Cynllunio Seilwaith', gan na fyddai ganddi unrhyw atebolrwydd democrataidd, hyd yn oed i Weinidogion Cymru.*

13. Awgrymwyd gennym yn flaenorol y dylai **argymhellion adroddiad Hyder nad oedd yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd** gael eu gweithredu cyn gynted ag y bo modd. Mae rhai camau ymarferol y gellir eu cymryd nawr cyn i'r Bil Cynllunio gael ei weithredu, oherwydd mae hwnnw rai blynyddoedd i ffwrdd o hyd.

*Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion hyn ac i gyhoeddi amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion hynny y cytuna â hwy.*

14. **Argymhellodd y** Pwyllgor fod tîm canolog yn cael ei sefydlu er mwyn helpu awdurdodau cynllunio lleol. Byddai gan y tîm arbenigedd penodol mewn technolegau ynni adnewyddadwy.

*Mae'r Grŵp Cynghori Annibynnol, a sefydlwyd gan y Gweinidog cynllunio blaenorol, wedi argymell sefydlu* ***Bwrdd Cynghori a Gwella Cynllunio*** *, a byddai hwnnw'n un ffordd bosibl o greu tîm canolog o'r fath. Nid ydym yn siŵr a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r syniad hwn, a hoffem eglurhad gan Lywodraeth Cymru am hyn.*

15. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod defnyddio **Nodiadau Cyngor Technegol** ar gyfer agweddau pwysig ar bolisi cynllunio gofodol cenedlaethol (fel TAN 8) wedi creu rhywfaint o anhawster a dryswch.

*Rydym yn gobeithio mai un o ganlyniadau'r diwygio sydd wrthi'n cael ei wneud i'r system gynllunio fydd cefnu ar y defnydd a wneir o Nodiadau Cyngor Technegol fel dull o weithredu rhai agweddau pwysig ar bolisi cynllunio cenedlaethol sydd hefyd â dimensiwn gofodol lleol.*

## 6. Ymgysylltu â'r cyhoedd, a budd hynny

16. Argymhellodd y Pwyllgor yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda datblygwyr a RenewableUK Cymru ar **brotocol ar gyfer buddion cymunedol** erbyn canol 2012. Argymhellodd hefyd y dylid creu cofrestr gyhoeddus o fuddion ac y dylai cymunedau yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt gan ddatblygiadau ynni (ee ffyrdd a'r grid) hefyd gael rhywfaint o fudd gan ddatblygwyr.

17. Mae'r **Datganiad ar fuddion cymunedol gan ddatblygwyr a chwmnïau ffermydd gwynt ar y tir,** a lofnodwyd gan nifer o ddatblygwyr ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, yn gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, erys sawl mater pwysig heb ei ddatrys, gan gynnwys sut y caiff y **gofrestr gyhoeddus o fuddion cymunedol** ei sefydlu a'i hariannu, ac a fyddai pob datblygwr yn fodlon rhannu gwybodaeth. Mae cofrestr debyg yn yr Alban, sef y Gofrestr Buddion Cymunedol. Caiff honno ei gweinyddu gan Ynni Cymunedol yr Alban. Cafwyd ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru y byddai cofrestr gyhoeddus Cymru wedi'i sefydlu erbyn diwedd 2013. Dywedodd hefyd ei fod yn dal i drafod gyda'r Grid Cenedlaethol sut y gallent gyfrannu, o ystyried yr effaith a gaiff gwella'r grid ar gymunedau.

*Rydym yn awyddus i weld y gofrestr gyhoeddus o fuddion cymunedol yn cael ei sefydlu yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd, a dim hwyrach na diwedd 2013. Rydym hefyd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda datblygwyr i sicrhau na fydd cymunedau yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt gan gynigion datblygu ynni ar eu colled o ran buddion gan ddatblygwyr.*

18. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ddiddorol gan **Ynni Cymunedol yr Alban**, yn enwedig am y rôl a chwaraeodd i hybu'r trafodaethau rhwng cymunedau a datblygwyr. Mae gan Lywodraeth yr Alban darged uchelgeisiol o 500 megawat i'w darparu drwy gynlluniau ynni cymunedol erbyn 2020. Dywedodd Ynni Cymunedol yr Alban wrthym eu bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn.

*Ar hyn o bryd nid oes targed penodol ar gyfer ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai targed o'r fath yn ddefnyddiol.*

19. Clywsom fod darparu cyllid ar gyfer prosiectau cyn y cam ymgeisio ffurfiol yn broblem benodol yng Nghymru. Mae **Cynllun Ynni Cymunedol**

**ac Adnewyddadwy** (CARES) Llywodraeth yr Alban yn helpu cymunedau i osod prosiectau ynni adnewyddadwy, a chaiff ei ddarparu gan Ynni Cymunedol yr Alban. Nod y cynllun yw lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â datblygu ynni adnewyddadwy cymunedol drwy ariannu costau cyn-gynllunio. Rhoddir benthyciadau i ariannu prosiectau hyd at yr adeg y cyflwynir cais cynllunio, a chânt eu talu'n ôl â llog ar adeg y terfyn ariannol. Ni fydd angen talu'r benthyciad yn ôl os bydd prosiect yn methu â chael cydsyniad.

*Awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu cynllun benthyca tebyg yng Nghymru ac y dylai weithio gydag Ynni Cymunedol Cymru i ddarparu'r cynllun.*

20. Clywsom hefyd gan dyst fod rhaglen Ynni'r Fro, a sefydlwyd ar gyfer prosiectau enghreifftiol gyda chyllid Ewropeaidd, yn "syniad gwych". Serch hynny, nid yw hwn ar ei ben ei hun yn debygol o ddod â buddion sylweddol i'r gymuned o ran incwm, ac nid yw ychwaith yn debygol o ostwng y lefelau carbon yn sylweddol.

*Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i fathau eraill o gymorth, heblaw rhaglen Ynni'r Fro, i annog mwy i fanteisio ar gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol.*

# 7. Targedau ynni adnewyddadwy

21. Yn flaenorol, yr oedd y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth bod angen adolygu **targedau ynni adnewyddadwy** Cymru, yn enwedig yng ngoleuni'r ôl-groniad o geisiadau ffermydd gwynt a sefyllfa gyfredol Morglawdd Hafren. Yn gynharach eleni, dywedodd tyst wrth y Pwyllgor mai dim ond tan 2015/17 oedd y 'dyhead' cyfredol i ddatblygu ffermydd gwynt ar dir ac ar fôr yn ddilys, a bod hynny'n gyfnod byr iawn i ddatblygwr gynllunio a chyflawni'i brosiectau. Dywedodd Prif Weinidog Cymru wrthym nad oedd yn fwriad gan Lywodraeth Cymru adolygu ei thargedau na'u dwyn ymlaen oherwydd bod llawer o'r dulliau i wireddu'r targedau hynny y tu hwnt i'w rheolaeth ar hyn o bryd.

*Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried diweddaru ei 'dyheadau' ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy, fel y nodwyd yn wreiddiol yn y Datganiad Polisi Ynni a gyhoeddwyd ganddi yn 2010, yng ngoleuni'r ychydig gynnydd a wnaed hyd yma a'r ansicrwydd ynghylch yr opsiynau i elwa ar lanw Aber Afon Hafren.*

## 8. Cyfoeth Naturiol Cymru

22. Barn y Pwyllgor yn ei adroddiad gwreiddiol oedd bod angen i Lywodraeth Cymru, wrth fwrw ymlaen â'i chynigion ar gyfer **Cyfoeth Naturiol Cymru**, sicrhau bod **blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymdrin â phrosiectau ynni**, o safbwynt rheoleiddio, ymgynghori statudol a datblygu masnachol.

23. Awgrymwyd gennym hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu **tîm ynni penodol** o fewn **Cyfoeth Naturiol Cymru** a sicrhau bod gan y tîm ddigon o adnoddau, a ffocws i gyflawni ei rôl ddeuol fel ymgynghorai statudol a chorff sy'n rhoi caniatâd amgylcheddol.

24. Yr oeddem o'r farn bod sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfle i sicrhau bod cyngor adeiladol yn cael ei roi i ymgeiswyr cyn iddynt gyflwyno eu cais, ac yn gyfle hefyd i ystyried **ffyrdd gwell o integreiddio a symleiddio'r cyfundrefnau cynllunio a chydsynio.**

25. Clywodd y Pwyllgor gan Gyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi sefydlu siop-un-stop ar gyfer busnesau, a'i fod wedi cyflwyno "ymateb un llais" i gynigion datblygu. Dywedwyd wrtho hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at benderfynu ar y caniatâd ar gyfer yr holl brosiectau cyn pen pedwar mis.

*Byddwn yn monitro'n ofalus a yw Cyfoeth Naturiol Cymru mewn gwirionedd yn cynnig dull symlach o weithredu ac yn cyrraedd ei darged o bedwar mis ar gyfer caniatáu ceisiadau.*

## 9. Nwy Anghonfensiynol

26. Mae'r sefyllfa o ran **elwa ar nwy anghonfensiynol** wedi datblygu'n gyflym ers i'r Pwyllgor orffen ei adroddiad. Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd **Strategaeth Nwy** gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y gallai nwy siâl roi mwy o sicrwydd i'r DU o ran ynni, twf a swyddi. Dywedodd ei bod am annog prosesau archwilio diogel sy'n garedig i'r amgylchedd er mwyn penderfynu beth yw gwir botensial nwy siâl.

27. Yn y strategaeth, cyhoeddwyd y byddai **Swyddfa ar gyfer Nwy ac Olew Anghonfensiynol** yn cael ei sefydlu er mwyn darparu un pwynt cyswllt i fuddsoddwyr a sicrhau proses reoleiddio symlach a llai beichus. Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol **ganllawiau cynllunio newydd ar gyfer Lloegr** sy'n esbonio'r cysylltiad rhwng y broses gynllunio a'r cyfundrefnau cydsynio amgylcheddol a diogelwch ar gyfer nwy ac olew ar y tir. Yn Lloegr, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi camau gweithredu i **symleiddio'r modd y rheoleiddir** y gweithgareddau chwilio, gan sicrhau ar yr un pryd fod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu. Mae Grŵp Cwmnïau Olew a Nwy ar Dir y DU wedi cyhoeddi **Siarter newydd Ymgysylltu â'r Gymuned**. Hefyd, mae'r Trysorlys yn ymgynghori ar fesurau ariannol i gymell gweithgareddau sy'n ymwneud â nwy siâl. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y **Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig** ei fod yn bwriadu cynnal ymchwiliad i Nwy Siâl yng Nghymru.

28. Cafodd y Pwyllgor ragor o dystiolaeth gan amryw o dystion am y potensial i **elwa ar nwy anghonfensiynol** yng Nghymru. Mae ganddo bryderon o hyd am ddiogelwch amgylcheddol defnyddio nwy anghonfensiynol, ac mae'r pryderon hynny'n ymwneud yn bennaf â'r prosesau **ffracio hydrolig am nwy siâl**.

*Barn flaenorol y Pwyllgor oedd na fyddai datblygu diwydiant carbon-ddwys arall yn briodol ar hyn o bryd ac na ellir cysoni hynny ag ymrwymiadau'r UE a'r DU i leihau allyriadau. Nid ydym wedi clywed unrhyw dystiolaeth bendant i'n darbwyllo i newid y farn hon. Hefyd, rydym yn dal i bryderu i ryw raddau nad yw'r materion diogelwch sy'n ymwneud â ffracio hydrolig wedi eu datrys yn ddigonol. Fodd bynnag, o ystyried safbwynt Llywodraeth y DU a'r ffaith fod trwyddedau chwilio eisoes wedi'u rhoi ar gyfer rhannau o Gymru, rydym o'r farn ei bod yn bwysicach fyth erbyn hyn fod Llywodraeth*

*Cymru yn dilyn esiampl Lloegr ac yn cyhoeddi canllawiau cynllunio manwl i fynd i'r afael â cheisiadau cynllunio ar gyfer chwilio am nwy anghonfensiynol, a'i ddefnyddio.*

*Credwn ei bod yn bwysig fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn esbonio'n glir ei safbwynt am ganiatáu, rheoleiddio a monitro safleoedd nwy anghonfensiynol, a'i fod hefyd yn esbonio i ba raddau y mae'n cytuno â'r Asesiad Risg Amgylcheddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd am y prosesau chwilio am nwy siâl.*

## 10. Cynlluniau ynni dŵr

29. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru annog Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) i lunio canllawiau diwygiedig ar gyfer **cynlluniau ynni dŵr "pen uchel"** a sicrhau dull cyson o 'rannu llif' ledled Cymru. Cawsom ragor o dystiolaeth am y mater hwn, a dywedodd un tyst wrthym y byddai parhau i weithredu dulliau o rannu llif, ynghyd â'r newidiadau arfaethedig i'r tariffau cyflenwi trydan ar gyfer cynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach, yn cau'r drws, i bob pwrpas, ar y potensial i ddatblygu fwy fyth ar gynlluniau o'r fath yng Nghymru. Ar y llaw arall, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym ei fod yn dal i ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ar bedwar opsiwn gwahanol, a bod tystiolaeth wyddonol a safbwyntiau cytbwys ar ddwy ochr y ddadl.

30. Ers inni gael rhagor o dystiolaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cymeradwyo Safonau Llif Ynni Dŵr ar gyfer Cymru. Deallwn hefyd nad yw'r safonau hyn wedi'u seilio'n uniongyrchol ar y pedwar opsiwn y bu Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymgynghori arnynt. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod Ynni Cymunedol Cymru wedi mynegi rhai pryderon difrifol am y safonau newydd hyn, a sut y gallent effeithio ar ddatblygu cynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach yng Nghymru.

*Nid ydym mewn sefyllfa i farnu a yw'r pryderon hyn yn ddilys, ar sail y dystiolaeth a gawsom hyd yma, a heb ragor o wybodaeth am y safonau newydd, sydd bellach wedi'u mabwysiadu. Rydym yn awyddus i drafod hyn ymhellach.*

31. Yn ein sesiynau tystiolaeth yn ddiweddar, clywsom y gallai awdurdodau cynllunio lleol, o bosibl, ystyried defnyddio **Gorchmynion Datblygu Lleol** er mwyn cael proses gymeradwyo symlach ar gyfer cynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach.

*Rydym yn cefnogi'r dull hwn o weithredu ac awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau cynllunio lleol i wneud mwy o ddefnydd o Orchmynion Datblygu Lleol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, yn ogystal â chynnal adolygiad arall o'r hawliau datblygu a ganiateir. Diben hyn yw ei gwneud yn haws bwrw ymlaen â datblygiadau ynni ar raddfa fach ar safleoedd domestig a diwydiannol ac ar ffermydd.*

## 11. Treulio Anaerobig

32. Dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wrth y Pwyllgor ei fod yn ystyried opsiynau ar gyfer y **Cynllun Datblygu Gwledig** nesaf er mwyn cefnogi cynlluniau adnewyddadwy cymunedol. Byddai hynny'n cynnwys gofyn i ffermwyr weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynigion i greu safleoedd **treulio anaerobig mwy o faint** na fyddai'n ecnomaidd bosibl ar ffermydd unigol.

*Yr oeddem wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol i gynorthwyo datblygiad safleoedd treulio anaerobig bach ar ffermydd. Hoffem weld Llywodraeth Cyru yn defnyddio'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf i annog mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol, gan gynnwys prosiectau treulio anaerobig.*

## Atodiad - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau'r cyfarfodydd yn
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1308

**25 Ebrill 2013**

**Sesiwn 1**

| | |
|---|---|
| Steve Salt | West Coast Energy |
| Richard Rees | Ynni Dŵr Gogledd Cymru |

**Sesiwn 2**

| | |
|---|---|
| Eifion Bowen | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Alan Southerby | Cyngor Sir Powys |
| Jane Lee | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

**Sesiwn 3**

| | |
|---|---|
| David Jones | Hyder Consulting |

**Sesiwn 4**

| | |
|---|---|
| Katy Woodington | RWE nPower Renewables |
| Llywelyn Rhys | Renewable UK Cymru |
| Chris Blake | Ynni Cymunedol Cymru |
| Michael Butterfield | Ynni Cymunedol Cymru |

**Sesiwn 5**

| | |
|---|---|
| Carina Vopel | Cyfarwyddiaeth Gyffredinol dros yr Amgylchedd, y Comisiwn Ewropeaidd |
| Michael Schuetz | Cyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Ynni, y Comisiwn Ewropeaidd |

**23 Mai 2013**

**Sesiwn 6**

| | |
|---|---|
| Jennifer Ramsay | Community Energy Scotland |

**Sesiwn 7**

| | |
|---|---|
| Ceri Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Natalie Hall | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Dr Sarah Wood | Cyfoeth Naturiol Cymru |

**13 Mehefin 2013**

**Sesiwn 8**

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones AC | Prif Weinidog Cymru |
| Alun Davies AC | Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd |
| Rosemary Thomas | Llywodraeth Cymru |